O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 416 (Cy.59)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22, Hen Golwyn i Gyffordd 25, Bodelwyddan, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *14 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *21 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol**(2)**:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22, Hen Golwyn i Gyffordd 25, Bodelwyddan, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau

brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 23:59 o'r gloch ar 21 Chwefror 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn..

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Tra bo symudiadau cerbydau, o dan erthygl 3, wedi eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 9, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(a) fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i gyfeiriad y gorllewin;
(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i gyfeiriad y gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 3.6 metr neu'n fwy fynd yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feic yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar droed yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.